# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, S.J. Haines, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby a H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro) a G. Doyle (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel); a'r Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid), R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol), N.C. Thomas ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S.M. Hanks a M.J.G. Morgan; a D. Dutch (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel).

## COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

## DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

CYFLWYNIAD: COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD DE CYMRU (CHTh) –

Roedd y Cynghorydd Dr. Johnson wedi gofyn am ystyried blaenoriaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru newydd ei ethol ar gyfer y rôl, a sut y byddant yn effeithio ar Fro Morgannwg, a dywedodd y dylid gwahodd y Comisiynydd i gyflwyno i'r Pwyllgor ar y materion hyn.

Cyflwynwyd yr eitem gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh), Emma Wools, a roddodd wybod i'r Pwyllgor am y meysydd gwaith blaenoriaeth yn y rôl a sut roedd hyn yn ymwneud â throsedd ym Mro Morgannwg. Yn dilyn y cyflwyniad, mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor, rhoddodd y CHTh wybod am y canlynol.

- O ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, roedd gwaith eisoes yn cael ei wneud i nodi mannau problemus, ac i edrych ar strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â hyn, gan gynnwys trwy blismona cymunedol a thrwy gefnogi pobl ifanc gyda mannau a gweithgareddau diogel, gyda'r nod o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Er bod yr ystâd blismona yn cael ei hadolygu'n barhaus, nid oedd cynlluniau ar hyn o bryd i gau Gorsaf Heddlu'r Barri. Fodd bynnag, roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod gan yr Heddlu bresenoldeb o fewn cymunedau mewn ffyrdd amgen, nid yn unig trwy orsafoedd yr Heddlu ac adeiladau swyddfeydd;
- O ran e-feiciau, am beth amser roedd yr Heddlu wedi gweithredu dull rhagweithiol o fynd i'r afael â phroblemau yn codi o gerbydau o'r fath, a chafodd mwy o waith ei gynllunio ynghylch y rhai a oedd yn gwerthu e-feiciau, ac ynghylch gwybodaeth am ddiogelwch yn cael ei dosbarthu i rieni a phobl ifanc a oedd yn eu defnyddio;
- O ran stelcio ac aflonyddu, nid oedd y cynnydd mewn troseddau o'r fath yn unigryw i Fro Morgannwg, roedd hefyd i'w weld ym mhob rhan o'r heddlu ac roedd yn rhan o lun cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys sbectrwm o ymddygiadau a oedd yn cwmpasu gweithgarwch ar-lein ac all-lein. Gellid rhoi mwy o wybodaeth am droseddau stelcio ac aflonyddu ym Mro Morgannwg i'r Pwyllgor maes o law;
- O ran plismona mewn trefi ac ardaloedd gwledig, roedd perthynas gref rhwng swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (SCCH) a'r gymuned, ac roedd hyn yn allweddol i fynd i'r afael â throseddau. Un o addewidion y CHTh oedd gwella a diogelu plismona cymdogaethau ac roedd y CHTh yn awyddus i sicrhau bod troseddau yn cael eu lliniaru drwy blismona cymunedol cystal â phosibl, gyda'r adnoddau cyfyngedig a oedd ar gael.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson, gyda chaniatâd i siarad, at Banel Troseddau Heddlu De Cymru sy'n cynnwys Cynghorwyr o bob Sir yn ardal Heddlu De Cymru, a sut y bu'n craffu ar waith y CHTh.

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid, a oedd yn aelod o'r Panel, mai ei rôl oedd gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r CHTh. Dywedodd yr Aelod Cabinet ymhellach fod tua chwe chyfarfod Panel yn cael eu cynnal bob blwyddyn, gan ystyried praesept, cyllid a blaenoriaethau rôl y CHTh. Dywedodd fod materion a mannau problemus cyffredinol

yn cael eu trafod gyda'r CHTh a chydag aelodau o'r tîm, a oedd hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI cynnwys y cyflwyniad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, a diolch i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru am ei amser a'i gyfraniadau.

(2) Y DYLID gwahodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru i annerch y Pwyllgor eto i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau unwaith y bydd y Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'i gyhoeddi, a phan fydd diweddariadau pellach i'r Pwyllgor yn briodol wedi hynny.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ym Mro Morgannwg yn y dyfodol.

CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2025-30 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2024, fel y cynhwyswyd yn yr agenda, gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai ynghyd â chyflwyniad. Yn dilyn hyn, rhoddodd y swyddogion wybod am y canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Roedd y Cynllun Corfforaethol yn ddogfen strategol felly ni fyddai'n cynnwys yr holl fanylion ar bob maes, fodd bynnag, byddai mwy o Gynlluniau Cyfarwyddiaeth neu Wasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i gefnogi'r ddogfen hon gyda mwy o fanylion.
- Roedd y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth am y strategaeth ynghylch tai cynaliadwy, ond byddai mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.
- O ran paragraff 2.17 yr adroddiad eglurhaol, roedd gwaith yn cael ei wneud i wneud y broses graffu yn fwy effeithiol, a rôl y Pwyllgor wrth graffu ar y gwaith yr adroddwyd arno, yn fwy hygyrch. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod yn anodd craffu'n iawn ac yn effeithiol ar lawer iawn o gamau gweithredu a manylion mewn rhai adroddiadau, ac y byddai gwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn yn ddelfrydol yn galluogi Pwyllgorau Craffu a thrigolion i allu gwneud sylwadau mwy effeithiol ar adroddiadau o'r fath. Byddai'r gwaith yn cynnwys gwneud yr holl ddogfennau yn haws eu deall, yn fwy syml, ac yn haws eu herio gan drigolion a Phwyllgorau Craffu.
- Roedd lefel yr ymatebion a dderbyniwyd drwy'r Arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro yn gadarnhaol, ac yn sylweddol uwch na'r lefelau a welwyd yn

cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori eraill. Serch hynny, byddai'r swyddogion yn parhau i anelu at wella lefelau ymgysylltu, a chynyddu canran y trigolion sy'n ymateb i ymgynghoriadau.

- O ran creu lleoedd, roedd y Cyngor wedi ymuno â'r Siarter Creu Lleoedd, ac er nad oedd adnoddau ar gael i weithredu Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Sain Tathan yn benodol, gallai'r swyddogion ymgymryd â mwy o'r gwaith mapio cymunedol gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned mewn ardaloedd o'r fath.
- O ran ardaloedd fel Sain Tathan gyda phoblogaethau uchel ond nad oeddent yn cael eu hystyried yn drefi, nod y Cyngor oedd dal barn trigolion o ardaloedd o'r fath.
- Ar ddiwedd mis Hydref 2024, roedd 30 o deuluoedd wedi symud i unedau llety dros dro yn natblygiad Eagleswell Road yn Llanilltud Fawr, gyda deg ohonynt yn deuluoedd o Wcrain. Ar hyn o bryd y bwriad oedd y byddai tua 45 o deuluoedd o Wcrain yn meddiannu llety ar y safle, yn dilyn dull graddol o gynyddu'r nifer sy'n meddiannu'r safle.

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys y cyfeirnod, yr adroddiad a'r Cynllun Corfforaethol Drafft, a bod yr awgrym y dylai'r Cynllun gynnwys ffigurau ynghylch nifer trigolion Bro Morgannwg sydd mewn cyflogaeth, yn cael ei rannu gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr eitem a thrafodaethau yn y cyfarfod a llywio diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol fel rhan o'r rhaglen ymgynghori, cyn i'r Cabinet ystyried drafft terfynol.

EFFEITHLONRWYDD YNNI CARTREF (ECO4 FLEX NEST – CARTREFI CYNNES CYMRU) (CL) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd Tîm o fewn Economi ac Adfywio Cymdogaethau.

Cynllun gan lywodraeth y DU oedd y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) a osododd rwymedigaethau cyfreithiol ar gyflenwyr ynni i ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni i safleoedd domestig a ddyluniwyd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a helpu i leihau allyriadau carbon. Gweinyddwyd y cynllun gan y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Roedd yr iteriad diweddaraf o'r ECO (a elwir yn ECO4) yn canolbwyntio ar wella'r cartrefi lleiaf ynni-effeithlon gan mai dim ond eiddo ym mandiau D-G y Weithdrefn Asesu Safonol (GAS) y gellid eu trin. Roedd hefyd angen uwchraddio'r cartrefi hynny'n fwy cyflawn, gan symud i ddull ôl-ffitio 'tŷ cyfan' aml-fesur i uwchraddio sgôr effeithlonrwydd ynni eiddo gan ddau fand GAS. Roedd enghreifftiau o fesurau ôl-ffitio cymwys yn cynnwys inswleiddio waliau solet, ceudod, llawr a llofft, a/neu atgyweirio ac amnewid systemau gwresogi wedi torri a gosod systemau gwresogi adnewyddadwy fel pympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli solar.

Dan arweiniad Ofgem roedd elfen "Cymhwysedd Hyblyg" ECO4 (a elwir yn ECO4 Flex) yn galluogi Awdurdodau Lleol i osod eu meini prawf eu hunain ar gyfer nodi a thargedu aelwydydd sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd.  Felly, roedd ECO4 Flex yn fecanwaith cyfeirio aelwydydd o fewn y cynllun ECO4 ehangach a alluogodd Awdurdodau Lleol i gydweithio â'r cyflenwr ynni sydd â rhwymedigaeth a thrydydd partïon fel Cyngor ar Bopeth a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y GIG i deilwra cynlluniau effeithlonrwydd ynni i'w hardal ddaearyddol briodol.

Roedd ECO4 yn berthnasol i fesurau a osodwyd o 1 Ebrill 2022 ymlaen a byddai'n para am gyfnod o bedair blynedd tan 31 Mawrth 2026.  Roedd ECO4 Flex ar gael i aelwydydd a oedd yn cael eu meddiannu gan berchnogion ac aelwydydd yn y sector rhent preifat yn unig a oedd yn bodloni'r gofynion cymhwysedd.

Roedd y cynllun ECO4 Flex yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) a'r Cyngor hwn trwy liniaru tlodi tanwydd a chyfrannu at dargedau effeithlonrwydd ynni trwy ôl-ffitio'r stoc tai domestig.

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o'r cynllun a ddatblygwyd hyd yma ers mabwysiadu'r cynllun yn y Cabinet.

Yn dilyn cyflwyno’r adroddiad, rhoddodd yr Arweinydd Tîm wybod am y canlynol mewn ymateb i ymholiadau gan Aelodau’r Pwyllgor:

- Ar hyn o bryd nid oedd data ar gael ynghylch pam roedd y meini prawf cymhwysedd iechyd yn cynnig lefelau uwch o geisiadau na'r rhai gan ymgeiswyr a oedd yn ei chael yn anodd yn ariannol, ond roedd y Cyngor wrthi'n gwneud yr hyn a allai i dargedu'r rhai mwyaf anghenus wrth hyrwyddo'r cynlluniau.
- Roedd gan y swyddogion berthynas waith dda gydag EON Energy a gallent drafod yr hyn y gallai EON ei wneud i gefnogi sicrhau bod y broses ymgeisio mor hygyrch â phosibl.
- Byddai'r Arweinydd Tîm yn cymryd adborth yn ôl gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch targedu ysgolion a phobl ifanc mewn tlodi wrth hyrwyddo'r cynlluniau, a hefyd ar weithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd ifanc. Cytunodd yr Arweinydd Tîm hefyd i ystyried adborth y gallai'r Cyngor ddefnyddio ei ddata ei hun i dargedu'r rhai sydd angen cymorth fwyaf, a'u cyfeirio at y ddau gynllun.

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi'r adroddiad a'i ddosbarthu eto i'r holl Aelodau Etholedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, a chynorthwyo Aelodau Etholedig i amlygu'r cynlluniau i drigolion.

GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID A CHYMORTH CYNNAR: ADRODDIAD PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN (CGC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar (GCIChC) a roddodd wybod i’r Pwyllgor fod yr adroddiad yn tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu at berfformiad y GCIChC ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 ac fe'i dyluniwyd i alluogi Aelodau Etholedig i oruchwylio'n effeithiol berfformiad y GCIChC.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, rhoddwyd gwybod y byddai angen i’r swyddogion gydweithio â'r Tîm Diogelwch Cymunedol i geisio cyflwyno data mwy penodol ynghylch yr ardaloedd lle roedd y rhan fwyaf o droseddau a gyflawnwyd gan bobl ifanc a oedd ymwneud â'r gwasanaeth wedi digwydd.

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

BLAENORIAETHAU DARPARU TAI CYMDEITHASOL A DIWEDDARIAD AR Y GRANT TAI CYMDEITHASOL (CAT) –

Tynnodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu, at y meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu tai cymdeithasol newydd ym Mro Morgannwg.  Tynnodd sylw hefyd at sut mae'r cyflenwad o dai cymdeithasol newydd yn cael ei fwyhau trwy ddefnyddio grantiau a benthyca mewnol.

Yn dilyn cyflwyno’r adroddiad, rhoddodd y swyddogion y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan Aelodau’r Pwyllgor:

- Gan gyfeirio at baragraff 2.14 yr adroddiad, cyfeiriodd 10 uned o fewn y safle yn Sain Tathan at y cyfraniad Grant Tai Cymdeithasol, ac roedd 10% ychwanegol wedi’i roi drwy'r Grant Tai Cymdeithasol.
- Cyflwynwyd y Cynllun Cyflawni Rhaglenni (CCRh) mewn fformat rhagnodedig, mewn perthynas â sut y dyrannwyd y Grant Tai Cymdeithasol.
- Amlinellodd yr adroddiad gynlluniau cymeradwy, fodd bynnag, roedd rhestr wrth gefn o gynlluniau posibl hefyd nad oedd yn barod i'w chyhoeddi eto. Roedd y Cyngor bob amser yn edrych ar gynlluniau posibl, er enghraifft y rhai mewn rhaglenni wrth gefn.
- Er bod dull gweithredu tymor hwy wedi'i gymryd, nid oedd modd ateb y galw ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn yr ardaloedd lle roedd yr angen mwyaf, ac ar y mathau o lety yr oedd ei angen fwyaf.
- Roedd y rhan fwyaf o gynlluniau dros y blynyddoedd diwethaf wedi eu lleoli yn ardal y Barri, er enghraifft datblygiad Glannau’r Barri, ond hoffai’r swyddogion weld mwy o waith mewn ardaloedd eraill o'r Fro.

- Roedd cyflenwad tir yn broblem mewn ardaloedd fel Penarth, ond cynhaliwyd trafodaethau gyda thirfeddianwyr mewn ardaloedd fel y rhain. Byddai cyflenwad tir yn her allweddol i'r tîm yn y dyfodol.
- Roedd Bro Morgannwg wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni cynlluniau, yn enwedig y rhai ynghylch tai fforddiadwy, ac roedd y swyddogion yn gobeithio y byddai hyn yn parhau yn y dyfodol.
- O ran y ffaith nad yw'r Cyngor yn gweithredu system matrics ar hyn o bryd i flaenoriaethu cynlluniau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y CCRh, roedd hyn er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r gwasanaeth nag y gallai dull mwy rhagnodol ei alluogi.
- Byddai mabwysiadu dull hyblyg yn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r adnoddau tir cyfyngedig, yn ogystal ag edrych ar safleoedd mwy ac addasiadau i fathau eraill o eiddo, er enghraifft cyn swyddfeydd, yn ogystal â chaffaeliadau eiddo.
- Rhoddwyd pwyslais ar yr angen am eiddo un ystafell wely, a cheisiodd y swyddogion weld cymaint o unedau un ystafell wely â phosibl o fewn datblygiadau.
- Roedd y datblygiad yn Holm View yn y Barri yn enghraifft dda o gymysgedd o fathau o lety gan gynnwys byngalos, unedau un ystafell wely, cartrefi teulu a chartrefi hygyrch.
- Cynhaliwyd gwaith gyda chydweithwyr o fewn yr Awdurdod ynghylch cartrefi gwag, ac mewn perthynas â chreu lleoedd a mannau yr oedd modd byw ynddynt o'r blaen a oedd bellach yn wag uwchben siopau, er enghraifft. Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda chydweithwyr ynghylch canol trefi a dyfodol llety yno.  Roedd hyn yn rhan o sgwrs ehangach ynghylch strategaeth canol trefi.

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu tai cymdeithasol newydd ym Mro Morgannwg.

(2) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud i wneud y mwyaf o'r grant sydd ar gael i alluogi tai cymdeithasol newydd i gael eu hadeiladu.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.